

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom nos Iau 10 Chwefror 2022 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Lowri Evans

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau - gan y Cyng. Wyn Bowen Harris a Evan Jones.

3. Chris Roberts –Hwylusydd Cymunedol GwyrddNi - Cafwyd cyflwyniad gan Chris am ei waith ac am y Cynulliad fydd yn cael ei lawnsio yn fuan. Bydd gwahoddiad i bawb yn y Dyffryn ac byddent yn chwilio am 50 o aelodau ym mhob dyffryn.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Twll yn y ffordd ger y Wern – Y Clerc wedi anfon fideo ymlaen at Gyngor Gwynedd.

Yr arolygwr ffyrdd am asesu'r lleoliad a threfnu gwaith adfer priodol. Y clerch i holi am ddiweddariad.

Cysylltiad Fibreoptig – Y Cyng. Megan Tomos wedi llenwi'r holiadur.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Lowri Evans nad oedd hi wedi cael cyfle hyd yn hyn.

Llyn Bryn – Y Clerc wedi cysylltu gyda Stad Penrhyn am y 3 bwlch, dim diweddariad hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Sedd Wag – Dim diddordeb hyd yn hyn, y Clerc i ail-hybysebu.

Arwyddion Maes y Groes – Y Clerc i gael diweddariad am yr archeb. Dim ymateb hyd yn hyn.

Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes– Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi eto.

Datblygiadau Bronydd Isaf – Yr Adran Gynllunio yn disgwyl ymateb gan yr Adran Priffyrdd. Y Clerc i holi eto.

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu â ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyngor. Evan Jones, Alun Thomas a'r Clerc.

Gwlau Cocos, Traeth Lafan – Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd, fel eu bod nhw yn ymwybodol o'r broblem hefyd. Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu at Llywodraeth Cymru i'w hysbysu am y problemau.

Ffordd Llwyn Bleddyn – nododd y Cyng. Dafydd Jones yn ein cyfarfod diwethaf fod angen ymestyn y llinellau melyn ac gosod drych ar y ffordd gyferbyn a llwybr Lôn Bach Odro – y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi eto.

Coedwig Braichmelyn – Angen ail godi'r wal/ffens gan bod defaid yn dianc. Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod gwaith ar y gweill gan gontractwr lleol.

Biniau halen – Aelodau i gadw llygaid ar y halen ac i ddanfôn rhestr o'r rhai sydd angen eu llenwi.

Pant Bowls – darn o'r ffordd yn dal llawer iawn o ddŵr ar adegau o law trwm. Y Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen at y Cyng. Dafydd Meurig. Y Clerc i holi eto.

Bont bach – ger Sychnant angen sylw. Swyddog Llwybrau wedi bod allan ac yn cadarnhau bydd gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol 2022-23.

Ffordd lawr at Traeth Lafan – Adroddwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwarthus – Y Clerc i hysbysu'r Adran Priffyrdd. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Ffordd ger Tyddyn Cottages, Talybont - Nodwyd fod llawer o ddŵr yn llifo yma pan mae glaw trwm. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Bryn Derwas – Nodwyd fod y ffordd ger Bryn Derwas mewn cyflwr gwael ac yn beryg iawn, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Clerc i holi hefyd am gael bin halen ar dop yr allt. Angen holi am ddiweddariad.

Lôn Bryn – Nodwyd fod y ffordd yma mewn cyflwr gwael, y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim ymateb wedi dod hyd yn hyn.

Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd – Nododd y Cyng. Alun Thomas fod y coed a'r gwrychoedd wedi gor-dyfu ar y llwybr hwn. Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd, angen holi am ddiweddariad.

Prosiect Partneriaeth y Carneddau – y Cynghorwyr yn siomedig nad oes llawer o waith ymarferol i'w weld yn cael ei gwblhau ar y Mynydd – angen gwahodd y Swyddogion i gyfarfod cyn gynted a bo modd.

Y Carneddau – Adroddwyd bod cynnydd yn y nifer beicwyr a paragleidwyr yn defnyddio'r mynydd. Y Clerc i roi gwybod i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Parc Cenedlaethol Eryri. Ymateb wedi dod gan y Parc eu bod wedi cysylltu gyda'r YG sydd eisioes wedi bod mewn cysylltiad gyda'r grŵp sy'n paragleidio. Mae'r Parc wrthi'n gweithio ar negeseuon i'w gael allan i annog ymarfer da o ran beicio mynydd cyfrifol.

Gwaith adnewyddu ar y corlannau - Y Clerc i gysylltu gyda Parc Cenedlaethol Eryri i holi am unrhyw grantiau sydd ar gael ar gyfer y math yma o waith. Dim byd ar gael ar hyn o bryd. Y Clerc dal i holi o gwmpas.

6. Taliadau

Dim.

7. Y Mynydd

Wedi cael trafodaeth am y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd dydd Sadwrn 5ed o Chwefror i ddiweddarau pawb am hanes Y Mynydd.

Cafwyd wybod bod y bugail wedi tynnu yn ôl ei ymddiswyddiad. Penderfynwyd ychwanegu un rheol newydd i'r Rheolau Mynydd – drafft wedi ei anfon at y Clerc. Derbyniwyd dyfynbris am adnewyddu set Llanllechid. Penderfynwyd derbyn y pris ar gyfer defnyddio pileri llechi.

8. Lwfans blynyddol

Pawb wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.

9. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Cyng. Dafydd Meurig – symud y ffin rhwng Cyngor Cymuned Bethesda a Llanllechid. Trafodwyd y mater yma ar ddechrau'r cyfarfod, gyda rhai o drigolion Llwyn Bedw yn bresennol i wrando ar y drafodaeth. Roedd y trigolion wedi paratoi datganiad o flaen llaw a gafodd ei ddarllen gan y Cyng. Lowri Evans.

Penderfynwyd galw ar ein cynghorwyr lleol i atal datblygiad Cae Rhosydd ac ailymgyngori oni bai bod y cais gwreiddiol o 15 dai cymdeithasol a 15 o dai ar werth yn sefyll.

Penderfynwyd rhoi'r mater ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf.

Cyflwynwyd – Cyngor ar Bopeth – cymorth hefo ynni – nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – Cyngor Gwynedd – Cronfa Cymunedau Mentrus Gwynedd – y Clerc i holi am fwy o fanylion.

Cyflwynwyd – Un Llais Cymru – fideos codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaith cynghorwyr. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – Cyngor Cymuned Llandygai – cais i rannu tystiolaeth diffyg ymateb a chyfathrebu. Penderfynwyd rhannu ein cofnodion ac unrhyw ebyst perthnasol.

Cyflwynwyd – Cyngor Tref Nefyn – templedi ymateb i 3 ymgynghoriad cyfredol ynglŷn a ail dai a chymunedau Cymraeg. Pawb i ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd – Ymgynghoriaeth Gwynedd – astudiaeth parcio A5 Llyn Ogwen – cytuno hefo'r awgrymiadau, angen cael sortio'r broblem parcio sydd yno.

10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen – cynhaliwyd cyfarfod brys i drafod ac arwyddo dogfennau ynghlwm a pryniant yr hen siop Spar. Hefyd cytunwyd bydd staff Partneriaeth Ogwen yn cael diwrnod o wyliau ar gyfer Mawrth 1af, Dydd Gŵyl Dewi.

Adroddwyd hefyd bod y Cyng. Geraint Hughes yn trafod gwahanol brosiectau ynghlwm â cynhyrchwyr bwyd gyda'r Bartneriaeth.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/1231/21/HT

Tir ger Ger-y-llan, Tal y bont, Bangor

Gosod mast telethrebu 25m o uchder, offer ategol a chodi ffens 2.1m o uchder

Penderfyniad: Caniatawydd, heb amodau.

NP3/21/28E

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

Penderfyniad: Ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:**C21/1224/21/LL**

Fferm Tyddyn Isaf, Tal y Bont, Bangor

Estyniad i'r sied amaethyddol presennol

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C21/0722/21/YA

Pant Hwfa, Llanllechid, Bangor

Cais hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer bwyd anifeiliaid ac peiriannau amaethyddol.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

C22/0023/21/DT

Pencae, 5 Llwyn Bedw, Rachub

Cais ar gyfer codi estyniad llawr cyntaf i dalcen yr eiddo

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

12. Materion Brys

Y Mynydd – angen gwneud y ffigyrau 'pro rata' ar gyfer dyrniadau ychwanegol.

Is-bwyllgor Cyllid – angen trefnu cyfarfod cyn gynted a phosib.

Is-bwyllgor Mynydd – angen trefnu cyfarfod cyn cyfarfod llawn nesaf y Cyngor

Bont Llan – twll yn y ffordd

Lôn Bronydd – tyllau mawr yn y ffordd, yn enwedig rhwng Plas Uchaf a Bronydd – sydd yn berygl i feicwyr. Angen ail wynebu'r ffordd i gyd yn hytrach na clytio.

Llwybrau cyhoeddus – sy'n rhedeg drwy tir ffermwyr – angen caniatad y tiffeddiannwr i fod ar feics. Pobl yn cymryd bod na hawl ac yn gyrru heibio pobl sy'n cerdded a gyda pramiau. Angen arwyddion gan Cyngor Gwynedd fel bod hyn yn glir i'r cyhoedd.